CYP(3)-10-10 : Papur 1

**Huw Lewis AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Blant**
**Deputy Minister for Children**

SF/HL/35/10

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Helen-Mary Jones, Chair
Children & Young People's
Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

16 June 2010

Dear Helen Mary

**The provision of advocacy services for children and young people in Wales**

Thank you for your letter of invitation to attend the Children and Young People's Committee to provide an update on the implementation of the recommendations in your report: Advocacy Services for Children and Young People in Wales (Nov 2008).

Please find enclose my update on progress against these recommendations and trust they provide the relevant information.

Huw

**Huw Lewis AM/AC**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol ar ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru – diweddariad Mehefin 2010**


**Crynodeb:**

Ym Mawrth 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc adroddiad: *Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru*. Roedd nifer o argymhellion yn yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion hynny yn Ebrill 2008.

Ar ôl i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fynychu'r Pwyllgor ar 31 Mawrth 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc adroddiad arall ym Mai 2009: *Craffu ar ddatblygiadau o ran darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.* Roedd mwy o argymhellion yn yr adroddiad hwn ac ymatebodd y Gweinidog iddynt ar 25 Mehefin 2009.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor newydd ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Blant i ofyn am ddiweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion y ddau adroddiad. Mae'r papur hwn yn rhoi newyddion am y datblygiadau diweddaraf yn erbyn yr holl argymhellion. Mae'r datblygiadau'n cyd-fynd â Model Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru[1].


## Cyflwyniad

1. Er 2004 mae holl bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran plant a phobl ifanc 0-25 oed wedi bod yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella a chynyddu'r mynediad at wasanaethau eirioli i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gael cymorth, i gael llais ac i gael eu cynnwys a'u clywed pan wneir penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn unol ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

2. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r *Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru* (Mehefin 2009). Mae'r Model hwn yn cynnwys y 5 elfen ganlynol:
    - Gwasanaethau Eirioli Mynediad Agored
    - Gwasanaethau Eirioli Arbenigol Integredig
    - Ansawdd a Chysondeb Gwasanaethau Eirioli
    - Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
    - Gwerthuso Gwasanaethau Eirioli

3. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi ysgrifennu yn ddiweddar at y Dirprwy Weinidog dros Blant i holi ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran yr argymhellion a wnaethpwyd yn 2008 a 2009. Mae 5 elfen y Model, gyda'i gilydd, yn ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. At ddibenion y papur hwn, bydd pob argymhelliad yn cael ei ddiweddaru'n unigol.

[1] http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/090803guidedeliveringadvocacyservicesmodelen.doc

## 4. Papur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Mawrth 2008)

***Argymhelliad 1:***
*Trwy broses ymgynghori briodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned eirioli a gaiff ei hariannu'n ganolog, gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eirioli mewn ardaloedd lleol, ac am gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar lefel genedlaethol ar gyfer grwpiau megis plant i geiswyr lloches. Wrth gomisiynu gwasanaethau mewn ardaloedd lleol, byddai'r uned eirioli'n ystyried strwythurau rhanbarthol a lleol, daearyddiaeth a barn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 1:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno'n rhannol â'r Argymhelliad hwn.

Mae bron ddwy flynedd ers sefydlu Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru (mae ei chanolfan yn Llanelwy ar hyn o bryd ond bydd yn symud i Gyffordd Llandudno ym Medi 2010). Mae'r Uned yn gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaeth eirioli a chynghori cenedlaethol sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, yn ogystal ag am hwyluso cyfarfodydd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol; ystyried datblygu fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau eirioli; datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth a darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain; a rhoi cyngor i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar bob agwedd ar ddarparu eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Cyhoeddodd yr Uned Eirioli ganllaw ym Mehefin 2009 i egluro gwahanol elfennau'r Model Eiriolaeth a'r hyn y mae'n ei olygu. Y nod oedd cyfleu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran datblygu eiriolaeth a galluogi ac annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i osod y sylfeini ar gyfer comisiynu rhanbarthol/is-ranbarthol. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i gyhoeddi canllawiau statudol yn ddiweddarach eleni yn lle canllaw 2009. Unodd yr Uned Eirioli yn ddiweddar â Thîm Cyfranogi LICC i sicrhau arbedion maint a mwy o gydlyniaeth yn y ffordd y gweithredir y polisïau a lunnir gan LCC mewn ymateb i Erthygl 12.

***Argymhelliad 2:***
*Dylai uned eirioli Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o benderfynu i ba ddarparwyr eiriolaeth y dylid rhoi contract, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai'r argymhelliad hwn yn gymwys pan fyddai'r Uned yn comisiynu gwasanaethau lleol, cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol cenedlaethol.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 2:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Dylai plant a phobl ifanc gael cyfrannu at y broses o ddylunio'r holl wasanaethau sy'n effeithio arnynt, ac at sicrhau eu hansawdd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym maes eiriolaeth, fel y gwelir yn y safonau Eiriolaeth cenedlaethol (Safon 8, gweler Atodiad 1). Mae'n hanfodol ceisio cyngor plant a phobl ifanc ar sut i wella'r gwasanaeth a dylid eu cynnwys yn y broses o recriwtio eiriolwyr a staff eraill a fydd yn gweithio i gyflenwi a monitro gwasanaethau eirioli. Mae'r canllaw *Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru* (Mehefin 2009) yn nodi'n eglur ei bod yn

ofynnol i Uned Eirioli Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sefydlu systemau effeithiol i annog a helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli.

Mae'r uned eirioli wedi amlygu ei hymrwymiad i alluogi plant a phobl ifanc i gael llais yn y broses o ddylunio gwasanaethau sy'n effeithio arnynt drwy:

- benodi pedwar person ifanc 14-19 oed yn aelodau llawn o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod dair gwaith hyd yma. Mae'r cyfarfodydd yn rhyngweithiol iawn i sicrhau bod pawb yn gallu cyfranogi'n effeithiol. Mae'r aelodau wedi cael gwybod am y Model ac maent yn rhoi arweiniad i'r Uned Eirioli ac yn cynghori Gweinidogion ynghylch ei weithredu.

  - gweithio gyda phobl ifanc o'r Bwrdd ar ffyrdd o hysbysebu a hyrwyddo *MEIC*, y gwasanaeth eirioli a chynghori cenedlaethol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac ar grynodeb o'r canllaw i'r Model.

  - ymgynghori â thros 200 o blant, pobl ifanc a rhieni o wahanol ystodau oedran ynglŷn â sut y dylid brandio a marchnata'r gwasanaeth eirioli a chynghori cenedlaethol – pa logos i'w defnyddio, pa enw y dylid ei roi arno, pa liwiau/fformatiau sydd orau ganddynt, ble i roi deunyddiau marchnata. Byddant yn parhau i ddylanwadu ar yr ymgyrch farchnata.

  - trefnu i'r Uned Eirioli weithio gydag e-grŵp o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru sy'n rhoi adborth ar ddogfennau'r gangen eirioli ac ar faterion eraill fel brandio a marchnata.

  - trefnu i bedwar person ifanc eistedd ar y panel cyfweld a fyddai'n penodi aelodau i'r Bwrdd. Fe wnaethant lunio'u cwestiynau eu hunain ar sail y Swydd-ddisgrifiad ac roedd eu cyfraniad at yr holl broses yn ardderchog ac yn adeiladol.

  - trefnu i berson ifanc fod yn aelod o'r panel a fyddai'n rhoi'r contract tair blynedd i redeg MEIC. Chwaraeodd ran lawn a gweithredol o fewn y panel 5 person.

***Argymhelliad 3:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli yn gwneud trefniadau i ddarparu rhaglen hyfforddi ar gyfer eiriolwyr, mewn portffolio o sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, meithrin perthynas ag eraill a chwnsela). Gallai hyfforddwyr gynnwys cyn-ddefnyddwyr gwasanaethau eirioli yn ogystal â phlant a phobl ifanc.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 3:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Bellach mae cymhwyster eirioli achrededig yn bodoli a gydnabyddir yn genedlaethol ac a danategir gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Mae'r pecyn tiwtor a hunanastudio ar gyfer y modiwl hyfforddi i ennill Tystysgrif Lefel 3 mewn *Eiriolaeth Annibynnol gyda Phlant a Phobl Ifanc* wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan City & Guilds. Ariannwyd hyn gan LCC a'r Gwasanaeth Cymorth CAMHS Cenedlaethol. Datblygwyd y modiwl gan nifer o eiriolwyr o amrywiaeth o ddarparwyr eiriolaeth o bob rhan o Gymru a Lloegr. Treialwyd y cymhwyster gydag eiriolwyr ag amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys plant a phobl ifanc a

oedd wedi ymwneud ag eiriolaeth cymheiriaid, i sicrhau ei fod o ansawdd uchel ac yn berthnasol i bawb.

Mae'n gymhwyster sy'n seiliedig ar gymwyseddau ac mae'n addas ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y sector. Caiff ei asesu drwy gyfweliadau arsylwadol a thrwy gwblhau portffolio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a Tros Gynnal i gydweithio i hyfforddi 20 eiriolwr proffesiynol annibynnol o 9 darparwr eiriolaeth sy'n gweithio yng Nghymru. Yna bydd disgwyl i'r hyfforddeion helpu i raeadru'r cymhwyster yn eu cyrff eu hunain.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal â Chyngor Gofal Cymru ynghylch y posibilrwydd o gofrestru eiriolwyr cymwysedig. Mae'r trafodaethau cychwynnol yn ymddangos yn gadarnhaol. I gofrestru bydd yn rhaid bod eiriolwyr wedi ennill y Dystysgrif Lefel 3 mewn *Eiriolaeth Annibynnol gyda Phlant a Phobl Ifanc*. Bydd modd lawrlwytho copïau o wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a City & Guilds a bydd copïau caled ar gael ar gais gan yr Uned Eirioli.

***Argymhelliad 4:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn gwneud trefniadau i ddarparu cyrsiau hyfforddi, drwy ddarparwyr lleol, ar gyfer darpar eiriolwyr lleyg, fel athrawon, cynghorwyr, meddygon, hyfforddwyr dysgu, cogyddion a glanhawyr. Byddai'r uned eirioli'n darparu hyfforddiant ar gyfer darparwyr lleol er mwyn iddynt hwythau hyfforddi eiriolwyr lleyg. Fodd bynnag, ni fyddai byth yn rhaid bod darpar eiriolwr lleyg wedi cael yr hyfforddiant hwn cyn lleisio pryder ar ran plentyn neu berson ifanc, ac ni fyddai diffyg hyfforddiant byth yn atal darpar eiriolwr lleyg rhag ymgymryd â'r rôl hon.*

***Argymhelliad 5**:*
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli yn darparu hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau eirioli lleol, i'w cynorthwyo i hyfforddi plant a phobl ifanc, sy'n defnyddio'u gwasanaethau, i eirioli ar eu rhan eu hunain ac i eirioli ar ran eu cymheiriaid yn y dyfodol.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 4 a 5:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhellion hyn.

Nid hawdd bob amser yw deall y gwahaniaeth rhwng eiriolwr proffesiynol ac eiriolwr lleyg. Pan fydd plant a phobl ifanc mewn cyfyngder gallai fod angen cymorth ac eiriolaeth arnynt yn y fan a'r lle, ac mae'n bosibl na fyddant yn meddwl a yw'r oedolyn yr ymddiriedir ynddo yn eiriolwr hyfforddedig ai peidio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r 'jig-so eiriolaeth' (atodiad 2) i helpu i egluro'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol bobl sy'n eiriolwyr, a hefyd i egluro pwy all ac a ddylai fod yn eiriolwyr, gan gynnwys eiriolwyr lleyg. Mae rhan helaeth o'r ymgyrch i farchnata MEIC wedi'i thargedu at ddarpar 'eiriolwyr lleyg' i sicrhau eu bod hwy hefyd yn cael cymorth a'u bod yn gwybod ble i gael gwybodaeth a chyngor pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gofyn iddynt am gymorth.

Ystyrir bod eiriolaeth yn cyfrannu at helpu plant a phobl ifanc i gyfranogi ac i gael gafael ar eu hawliau; o ganlyniad i'r uno rhwng y Tîm Cyfranogi a'r Uned Eirioli, a'r cydweithio â'r Gangen Hawliau, rydym yn mynd ati ar y cyd i alluogi plant a phobl ifanc i wybod am yr CCUHP, i wybod am eu hawliau a'u deall, ac i deimlo'n hyderus i holi yn eu cylch a chael gafael arnynt.

Mae'r cymhwyster eirioli achrededig a grëwyd yn ddiweddar ac a gydnabyddir yn genedlaethol (gweler argymhelliad 3) yn cynnwys gwybodaeth am yr CCUHP, ac am ystyr yr erthyglau penodol ynddo a'r ffordd y'u gweithredir yng Nghymru. Mae'n hanfodol fod Eiriolwyr Annibynnol Proffesiynol yn gwybod am Hawliau Plant a Phobl Ifanc, iddynt gael dweud wrth blant a phobl ifanc amdanynt neu wrth ddarpar eiriolwyr lleyg wrth arwain hyfforddiant.

***Argymhelliad 6:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod system arolygu gadarn, annibynnol ar gael ar gyfer:*

- *yr uned eirioli genedlaethol*
- *gwasanaethau lleol sy'n darparu eiriolaeth*
- *y gwasanaeth cenedlaethol sy'n darparu eiriolaeth*

**Diweddariad ar Argymhelliad 6:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno'n rhannol â'r Argymhelliad hwn.

Nod rheoleiddio ac arolygu yw sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau a sgiliau'r rhai sy'n eu darparu. Mae hefyd yn sicrhau bod profiad a barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael eu hystyried wrth arolygu ac wrth nodi argymhellion yn dilyn arolygiadau. Ni fydd yr Uned yn cael ei harolygu am nad yw'n ddarparwr gwasanaeth. Gweision sifil Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ei staff, ac maent yn meddu ar sgiliau a phrofiad priodol. Mae'n rhaid i bob gwas sifil gydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil, a chaiff eu gwaith ei fonitro drwy systemau perfformiad sefydlog. Mae'r Uned yn cefnogi ac yn cydweithio â'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Bydd gan y Bwrdd orolwg strategol o'r broses o ddatblygu a darparu eiriolaeth a bydd yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nod amlwg y Model Eiriolaeth yw sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau eirioli, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae trafodaethau wedi'u cynnal â chynrychiolwyr o AGGCC ynghylch y trefniadau arolygu a llywodraethu. Bydd unrhyw arolygu yn cael ei gyflawni yn erbyn y Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol (Atodiad 1) a ddatblygwyd yn 2003 i sicrhau bod ansawdd eiriolaeth annibynnol yn gyson uchel. Os bwriedir rheoleiddio ac arolygu eiriolaeth yn y dyfodol, mae'n bwysig fod pob eiriolwr proffesiynol a darparwr eiriolaeth yn deall y bydd disgwyl iddynt gyrraedd safon ofynnol cyn bod yn gymwys i'w cofrestru, ac y bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddir yn y dyfodol. Byddai'n werth i'r sector ddechrau gweithio tuag at safonau cyffredin cyn gynted â phosibl. Y tebygolrwydd yw fod nifer eisoes yn gwneud llawer o hyn.

Mae angen diweddaru'r Safonau Cenedlaethol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â rheoliadau cyfredol. Er bod y safonau'n rhai da mewn egwyddor, mae angen i ni sicrhau eu bod yn gyraeddadwy a bod darparwyr eiriolaeth yn gallu dangos eu bod yn eu cyrraedd. At hynny, mae angen eu gosod o fewn fframwaith canlyniadau i sicrhau bod holl waith eiriolwyr proffesiynol a darparwyr eiriolaeth yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Felly, mae fframwaith canlyniadau ar gyfer eiriolaeth, sy'n cynnwys y Safonau Cenedlaethol ar gyfer darparwyr eiriolaeth, yn cael ei lunio at ddibenion ymgynghori. Mae gweithgor wedi'i sefydlu sy'n cynnwys swyddogion, aelodau o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a chynghorwyr proffesiynol y Cynulliad. Byddwn yn mynd ati'n gynnar i geisio barn cynrychiolwyr o'r sector. Bydd y drafft yn barod ar gyfer yr

ymgynghoriad yn hydref 2010. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu ag arolygiaethau i drafod sut i ddefnyddio'r Safonau Cenedlaethol yn sylfaen i waith arolygu.

***Argymhelliad 7:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod system arolygu'r gwasanaethau eirioli'n cynnwys dadansoddiad o sgiliau darparwyr eiriolaeth (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, cwnsela a meithrin perthynas ag eraill).*

**Diweddariad ar Argymhelliad 7:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Mae astudiaeth a gynhaliwyd yn 2006 o gymwysterau a sgiliau darparwyr eiriolaeth (a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol i ddarparu eiriolaeth statudol) yn awgrymu bod llawer ohonynt eisoes yn meddu ar gymhwyster gwaith cymdeithasol, addysgu, nyrsio neu waith ieuenctid. Roedd hefyd yn nodi bod polisïau clir wedi'u sefydlu o ran datblygiad parhaus eiriolwyr.

Mae'r cymhwyster eirioli achrededig a grëwyd yn ddiweddar ac a gydnabyddir yn genedlaethol (gweler argymhelliad 3) yn edrych ar y sgiliau sydd eu hangen i fod yn eiriolwr, gan gynnwys gwrando, deall, cwnsela, meithrin perthynas ag eraill, a llawer o sgiliau a chymwyseddau eraill. Cymhwyster ydyw sy'n seiliedig ar gymwyseddau, a chaiff ei asesu drwy gyfweliadau arsylwadol a thrwy gwblhau portffolio. Bydd mynd ati yn y dyfodol i gofrestru eiriolwyr sydd wedi bodloni'r Safon Alwedigaethol Genedlaethol drwy gwblhau'r cymhwyster penodedig yn sicrhau bod digon o gapasiti, sgiliau a phrofiad yn y gwasanaeth i alluogi eiriolwyr i chwarae rhan yn y gwaith o gynorthwyo plant, ac o hyfforddi proffesiynolion ac eraill ar eiriolaeth, cyfranogiad a hawliau plant. Mae ganddynt ran bwysig hefyd yn y broses o hyrwyddo newid diwylliant ar draws gwasanaethau i sicrhau bod y sgiliau gwrando, deall, cynorthwyo a meithrin perthnasoedd â phlant i godi eu hymddiriedaeth a'u hyder yn cael eu prif-ffrydio.

***Argymhelliad 8:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwasanaeth ffôn a neges destun di-dâl i blant a phobl ifanc. Dylai'r gwasanaeth ffôn hwn fod am ddim o ffonau symudol yn ogystal ag o ffonau llinellau tir. Yn ogystal â gwrando ar bryderon y rhai sy'n ffonio, byddai'r gwasanaeth hwn yn gallu rhoi gwybodaeth iddynt am ddarparwyr eiriolaeth a allai eu helpu gyda phryderon penodol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 8:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Ar 14 Mai 2010, euthum ati i lansio'r llinell gymorth 'MEIC' yn swyddogol. 'MEIC' yw'r Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed yng Nghymru. Dewiswyd yr enw 'MEIC' am ei fod yn dalfyriad o'r gair 'Meicroffon' ac yn cyfleu'r syniad fod eiriolaeth yn ffordd o chwyddo llais plentyn/person ifanc. Y llinell gymorth hon yw'r gyntaf o'i math ar lefel genedlaethol. Mae'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru drwy'r ffôn, negeseuon testun a negeseuon gwib, a hynny 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwybodaeth, cyfeiriadau at wasanaethau eraill a mynediad at eiriolwr proffesiynol annibynnol pan fydd angen i'w helpu gyda'r hyn sy'n eu pryderu. Yn naturiol fe fydd cysylltiadau â gwasanaethau lleol a

chenedlaethol, a bydd angen cyfeirio neu ailgyfeirio llawer o'r galwadau. Bydd llawer o hyn yn cael ei gyflawni drwy gysylltiadau â gwefannau lleol a chysylltiadau â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Gwasanaethau Ieuenctid lleol. Pan fydd y gwasanaeth yn gallu cael gafael ar wybodaeth leol, bydd yn ei rhoi yn syth i ddefnyddiwr y gwasanaeth. Pan fydd gwasanaethau eirioli ar gael yn lleol, bydd 'MEIC' yn trosglwyddo/cyfeirio'r plentyn neu berson ifanc os bydd yn gymwys.

Ers ei lansio gan y gweinidog ar 14 Mai 2010, mae ymateb plant a phobl ifanc yng Nghymru i 'MEIC' wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ar y dechrau, negeseuon testun a gafwyd yn bennaf, ond mae mwy a mwy yn sgwrsio ar y we neu'n codi'r ffôn erbyn hyn. Mae 'MEIC' wedi derbyn galwadau amrywiol, rhai yn ymwneud â digartrefedd, tai, clybiau ieuenctid lleol, eiriolaeth, anawsterau yn y brifysgol, a phroblemau gyda ffrindiau a theuluoedd, ac eraill i gael cymorth emosiynol. At hynny, mae rhai plant a phobl ifanc wedi cysylltu â'r llinell gymorth i gael mwy o wybodaeth am 'MEIC' a'i ddiben, ac i roi'r gwasanaeth ar brawf.

Mae rhai yn y wasg wedi honni bod 'MEIC' yn dyblygu gwasanaethau fel ChildLine. Y gwir amdani yw eu bod yn ddwy system gymorth wahanol iawn i blant a phobl ifanc. Mae *'MEIC'* yn darparu eiriolaeth a chyngor, tra bo ChildLine yn darparu gwasanaeth cwnsela a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gwahaniaeth rhwng Cwnsela ac Eirioli ac mae'r math o gymorth a ddarperir ganddynt ar gyfer plant a phobl ifanc yn wahanol. Mae cwnsela yn golygu gwrando ar broblem y plentyn neu berson ifanc, rhoi cymorth emosiynol ac efallai awgrymu ffyrdd o ymdopi neu ffyrdd o reoli/newid y sefyllfa. Mae eirioli yn golygu helpu plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau a wneir yn eu cylch neu sy'n effeithio arnynt – i gychwyn, atal neu newid rhywbeth. Yn wahanol i ChildLine, gall y llinell gynghori wneud rhywfaint o eirioli ar ran plant yn lleol; at hynny, gall y llinell eirioli gyfeirio at y lefel leol mewn ffordd sy'n amhosibl drwy ChildLine. Bydd y llinell eirioli a chynghori yn rhoi i'r plentyn neu berson ifanc wybodaeth leol a chenedlaethol, yn eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol pan fydd angen neu yn cysylltu â gwasanaethau ar eu rhan, gyda'u cytundeb. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn siarad â chynrychiolwyr ChildLine ac mae cyfle go iawn i gydweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth mwyaf priodol.

Elusen o'r enw ProMo-Cymru, ar y cyd â thri o'r darparwyr eiriolaeth mwyaf yng Nghymru, sy'n arwain o ran sefydlu a lansio'r gwasanaeth, a'i redeg yn yr ychydig fisoedd cyntaf y mae ar gael i blant a phobl ifanc. Yn y cyfamser, mae proses dendro marchnad agored lawn yn cael ei chynnal i benderfynu pwy sydd i gael y contract tair blynedd ar gyfer y Gwasanaeth Eirioli a Chynghori rhwng 2010 a 2013. Bydd y gwersi a ddysgwyd, y cynhyrchion, y systemau ac unrhyw ddeunyddiau a luniwyd yn cael eu trosglwyddo i'r corff/cyrff a gaiff y contract. Rhaid i'r broses drosglwyddo sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth di-dor.

Bydd plant a phobl ifanc yn gallu cysylltu â *MEIC* drwy'r ffôn, negeseuon testun neu negeseuon gwib 8 awr y dydd i gychwyn (12-8pm), ond o Hydref 2010 bydd y gwasanaeth hwn ar gael 24 awr y dydd.

Pa bynnag ddull a ddefnyddir, nid oes rhaid talu i gysylltu â MEIC.

***Argymhelliad 9:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu hysbysebion ar gyfer ei gwasanaeth ffôn a neges destun di-dâl i blant a phobl ifanc. Yn yr*

*hysbysebion, dylid egluro'r hyn yw eiriolaeth, a sut y gall helpu plant a phobl ifanc.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 9:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Mae'r bobl ifanc ar y Bwrdd wedi cydweithio'n agos ag adran farchnata LlCC, ProMo-Cymru a'r gangen eirioli ar y strategaeth farchnata ar gyfer MEIC, y Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol. Roedd hyn yn golygu ystyried sut y dylai'r gwasanaeth weithio o'r dechrau i'r diwedd, ystyried pa weithgareddau hysbysebu i'w cynnal, lleoli deunyddiau marchnata'n strategol, dylunio posteri, taflenni, logos a datblygu'r brand. Cynhaliwyd ymgynghoriad arall, drwy grwpiau ffocws, gyda thros 200 o blant a phobl ifanc o wahanol grwpiau oedran ac o bob rhan o Gymru i benderfynu sut i frandio'r llinell gymorth. Cynhwyswyd yr e-grŵp o blant a phobl ifanc yn y broses hon hefyd. Derbyniwyd nifer o'r argymhellion a wnaethpwyd gan y plant a'r bobl ifanc, megis defnyddio'r is-benawdau 'saib, sgwrs, newid' a 'gwybodaeth, cyngor a chymorth i fyw'. Mabwysiadwyd y lliwiau porffor a gwyrdd hefyd ar gyfer y brand, am mai'r rheini oedd orau gan y plant. Bydd yr holl ddeunyddiau marchnata yn ddwyieithog, a bydd clipiau fideo gwahanol ynglŷn â MEIC yn cynnwys iaith arwyddion.

Mae cynllun marchnata wedi'i ddatblygu sy'n ystyried y gwahanol grwpiau oedran ac yn rhoi sylw i grwpiau anodd eu cyrraedd.

***Argymhelliad 10:***
*Trwy gytundebau lefel gwasanaeth, a bennir gan yr uned eirioli, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau ei bod yn arferol i blant a phobl ifanc gael gwneud dewisiadau ynghylch eu heiriolwyr.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 10:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Pan fynychodd Jane Hutt AC, cyn-Weinidog APADGOS, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 31 Mawrth 2009 eglurwyd bod yr argymhelliad hwn yn ymwneud yn benodol â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu newid eu heiriolwr heb orfod rhoi rheswm, heb gael eu cosbi a heb orfod derbyn gwasanaeth mwy cyfyng. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno'n llwyr â'r argymhelliad hwn; ceir y geiriau canlynol yn y canllaw a bydd geiriau tebyg yn y canllawiau statudol hefyd:

> *Ni fydd yn bosib bob amser i blentyn neu berson ifanc ddewis eu heiriolwr, yn enwedig os ydynt yn defnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol/proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod y plentyn neu'r person ifanc yn gallu newid eu heiriolwr, heb orfod esbonio, os nad ydynt yn hapus neu'n gyfforddus gyda hwynt. Dylai'r broses o newid eiriolwr fod yn syml ac ni ddylai arwain at unrhyw ganlyniadau, hy oedi cyn rhoi cymorth neu gwtogi ar y gwasanaeth.*

***Argymhelliad 11:***
*Trwy gytundebau lefel gwasanaeth, a bennir gan yr uned eirioli, a thrwy hyfforddiant ac arolygiadau, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod eiriolwyr yn cadw sylwadau plant a phobl ifanc yn gyfrinachol, oni bai fod perygl i'r person ifanc gael niwed. Ceir diffiniad o 'niwed sylweddol' a 'pherygl uniongyrchol' ym Mholisi Cyfrinachedd*

*Comisiynydd Plant Cymru.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 11:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Ni fydd eiriolaeth yn effeithiol oni bai fod plant a phobl ifanc yn hyderus mai ar eu rhan hwy yn unig y bydd eiriolwyr yn gweithredu. Mae cyfrinachedd, gonestrwydd ac ymddiriedaeth yn rhannau hanfodol o'r berthynas rhwng yr eiriolwr a'r plentyn neu berson ifanc. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r canllawiau cyfredol yn nodi ei bod yn ofynnol i wasanaethau eirioli sefydlu polisïau clir ar gyfrinachedd sy'n seiliedig ar 'niwed sylweddol' ac sy'n cyd-fynd â gofynion statudol y Byrddau Lleol Diogelu, gweithdrefnau a'r gyfraith. Mae'n hanfodol fod polisïau cyfrinachedd yn cael eu gweithredu ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau eirioli. Mae'n hanfodol hefyd fod yr holl wasanaethau a pholisïau'r Byrddau Lleol Diogelu a chyrff ac unigolion eraill yn gweithredu o fewn cyd-destun y statud a'r cyfarwyddyd yn Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ac o fewn diffiniadau cyfreithiol adran 31 o Ddeddf Plant 1989 a'r diffiniad polisi estynedig. Mae adran 31 (10) yn datgan:

> *"where the question of whether a harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child".*

Bydd diogelu cyfrinachedd yn cael ei gynnwys wrth reoleiddio ac ymarfer o dan y Model newydd, ac mae'n hanfodol i roi sicrwydd i blant a phobl ifanc fod eu preifatrwydd yn cael ei barchu ac na fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu, oni bai fod perygl o niwed sylweddol, neu orfodaeth o dan orchymyn llys. Mewn achosion felly, byddai disgwyl i eiriolwyr egluro wrth y plentyn neu berson ifanc y rhesymau dros ddatgelu'r wybodaeth a chadw cofnod ysgrifenedig o'u gweithredoedd a'r rhesymau amdanynt.

***Argymhelliad 12:***
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddweud wrth yr uned eirioli am fynd ati'n arferol i gomisiynu gwasanaethau eirioli ar gontractau tair blynedd, gyda chyfle i ymestyn y cyfnod hwn er sefydlogrwydd a pharhad.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 12:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno bod angen 3 blynedd o leiaf i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad. Dyna pam y cynhwyswyd y geiriau canlynol yn y canllaw, ac y bwriedir eu hadlewyrchu yn y canllawiau statudol:

> *Argymhellir cael cylch comisiynu tair blynedd sy'n ddigon hyblyg i'w ymestyn neu i'w leihau (os bydd angen) i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Disgwylir y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses gomisiynu.*

Mae'r broses gaffael i ddarparu MEIC am dair blynedd ar fin dod i ben a bydd y contract yn cael ei roi erbyn diwedd Mehefin 2010.

## 5. Papur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Craffu ar ddatblygiadau o ran darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (Mai 2009)

***Argymhelliad 1**:*
*Dylai aelodau'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol gael cyfle i adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 1:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae gan y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol orolwg strategol, annibynnol ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn annibynnol a bydd yn cyflwyno'i ganfyddiadau, ei adroddiadau cynnydd a'i gyngor i mi. Gan mai y fi yw'r arweinydd portffolio â chyfrifoldeb am ddatblygu eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, mae gennyf ddyletswydd i adrodd yn rheolaidd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y cynnydd a wneir. At hynny, gall y Bwrdd dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol at ei farn ei hun drwy ddulliau eraill, er enghraifft drwy roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad.

***Argymhelliad 2:***
*Dylid gofyn i'r plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn uniongyrchol a ydynt yn dymuno cael cyfle i gwrdd ar wahân i'r oedolion sydd ar y Bwrdd, cyn ei gyfarfodydd.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 2:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r bobl ifanc a ddewiswyd i eistedd ar y Bwrdd wedi cael cynnig cyfle i gwrdd ar wahân i'r oedolion, ond nid oeddent eisiau cyfarfodydd ar wahân. Sicrhawyd wrth eu recriwtio fod y bobl ifanc i gyd yn sylweddoli mai eistedd ar banel cymysg o oedolion a phobl ifanc y byddent, ac maent wedi ymateb yn gadarnhaol i hyn. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn rhyngweithiol iawn a defnyddir amrywiaeth o ddulliau a gweithgareddau arloesol a chyfranogol i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys drwy gydol y cyfarfodydd. Lluniwyd a chymeradwywyd y Cylch Gorchwyl gan yr aelodau i gyd yn y cyfarfod cyntaf, i sicrhau bod popeth yn cael sylw a bod yr aelodau i gyd yn fodlon ar y trefniadau. Mae rhai o'r bobl ifanc wedi dewis cwrdd yn unigol â staff o'r uned eirioli cyn cyfarfodydd i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y cyfarfodydd a'u bod wedi cael yr holl wybodaeth. Mae'r Bwrdd wedi cynnal 5 cyfarfod hyd yma ac wedi trafod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gweithredu'r Model newydd.

***Argymhelliad 3**:*
*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro pa gyllid a ddefnyddir i sefydlu'r consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli integredig ar y cyd.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 3:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Nid oes arian ychwanegol penodol ar gael i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc sefydlu consortia. Mae hwyluso yn rhan o rôl y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a dylai hynny eu galluogi i gydweithio a sicrhau gwell gwerth a gwasanaeth ar gyfer y cwsmer. Mae llawer o Wasanaethau Cymdeithasol eisoes yn comisiynu darparwyr eiriolaeth ar sail consortiwm, ac mae'r *Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc (2009)* yn annog rhanbarthau/is-ranbarthau i ystyried y trefniadau hyn yn sylfaen i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli arbenigol integredig. Mae'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn rhoi cymorth a chyfarwyddyd i Bartneriaethau sefydlu eu trefniadau. Mae rhai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc eisoes yn ystyried ffyrdd o weithio'n rhanbarthol/is-ranbarthol.

***Argymhelliad 4**:*
***4.1** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu cost sefydlu gwasanaeth eirioli a chynghori ffôn a neges destun, y gellir ei ffonio am ddim o ffonau symudol.*
***4.2** Wedi pennu'r gost, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad ddigon o arian i sefydlu'r gwasanaeth hwn.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 4.1:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Un o orchwylion cyntaf y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol oedd ystyried yr opsiynau gwahanol ar gyfer datblygu a chaffael Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol, a fyddai'n cynnwys gwasanaeth ffôn a neges destun y gellid ei ddefnyddio am ddim o ffonau symudol. Mae'r Bwrdd wedi datblygu manyleb ar gyfer y gwasanaeth, ac fe'i defnyddiwyd yn y broses dendro. Enw'r gwasanaeth yw MEIC.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £750,000 i gynnal MEIC. Bydd hyn yn sicrhau gwasanaeth am ddim, gwasanaeth o ansawdd uchel, a gwasanaeth â digon o eiriolwyr proffesiynol annibynnol i siarad â phlant a phobl ifanc 24 awr y dydd.

Cynhwyswyd plant a phobl ifanc drwy gydol y broses o ddatblygu MEIC, a byddant yn parhau i gynghori er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau a mwyaf priodol. Mae cynllun marchnata wedi'i ddatblygu sy'n ystyried y gwahanol ystodau oedran ac sy'n rhoi sylw i grwpiau anodd eu cyrraedd.

Pa bynnag ddull a ddefnyddir i gysylltu â 'MEIC', ni fydd yn rhaid talu ac ni fydd yn ymddangos ar y bil ffôn.

**Diweddariad ar Argymhelliad 4.2:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Ar gyfer y flwyddyn gyfan 2010/11, £850,000 yw cyllideb yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad, ac mae hynny'n cynnwys gweithredu'r gwasanaeth eirioli a chynghori newydd, hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a chostau gweinyddol rhedeg y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Daw'r arian o'r Llinell Wariant Cwnsela ac Eiriolaeth o fewn Prif Grŵp Gwariant APADGOS. Bydd y trefniadau ariannu hirdymor yn dibynnu ar benderfyniadau cyllidebu'r dyfodol.

***Argymhelliad 5**:*
*Yn ei chanllawiau comisiynu ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys cyfarwyddyd clir y dylai plant a phobl ifanc fod yn gallu newid yr eiriolwr proffesiynol sy'n eu cynrychioli, heb orfod egluro pam eu bod yn anhapus ac eisiau ei newid.*

**Diweddariad ar Argymhelliad 5:**
Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Nodir hyn yn glir ac yn benodol ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn y *Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc* (2009), yn y canllaw statudol *Providing Effective Advocacy Services for Children and Young People Making a Complaint under the Children Act 1989* (gweler pwynt 2.15), ac yn y *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant* (gweler safon 1). Bydd y canllawiau statudol a ddaw hefyd yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

## 6. Casgliadau

Rydym yn croesawu ymroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'i ddiddordeb parhaus yn y gwaith o ddatblygu Fframwaith Newydd ar gyfer Gwasanaethau Eirioli yng Nghymru. Credwn fod y *Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru* yn dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol o gyflawni'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Mawrth 2008 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar wasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn adroddiad diweddarach y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd ym Mai 2009.

Bydd gweithredu'r Model yn arwain at newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau eirioli dros y blynyddoedd nesaf ac yn sicrhau mwy o annibyniaeth i blant a phobl ifanc. Mae Cymru yn arwain y ffordd drwy ddatblygu'r Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol. Dyma'r gwasanaeth cyntaf o'i fath yn y DU a bydd yn helpu i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u hystyried pan wneir penderfyniadau yn eu cylch.

**Atodiad 1 – Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant**

Datblygwyd y Safonau Cenedlaethol i sicrhau bod yr holl wasanaethau eirioli mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac o'r ansawdd uchaf.

Mae'r fersiwn lawn ar gael yn
http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childrenfirst/publications/advocacysafons/;jsessionid=CqLvJQdJJh2GslhMvCv98r2lc2m8v0L3R5mQnv1GjTcW1nyxy3hX!590164483?lang=cy

Dyma grynodeb…

| | |
|---|---|
| Safon Un | Mae eiriolwyr yn cael eu harwain gan farn a dymuniadau plant a phobl ifanc. |
| Safon Dau | Mae eiriolwyr yn hyrwyddo hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc. |
| Safon Tri | Mae gan yr holl Wasanaethau Eirioli bolisïau clir i hybu materion cydraddoldeb a monitro gwasanaethau i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw berson ifanc oherwydd oed, rhyw, hil, diwylliant, crefydd, iaith, anabledd na chyfeiriadedd rhywiol. |
| Safon Pedwar | Mae gwasanaethau eirioli yn cael eu hysbysebu'n dda; maent yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio. |
| Safon Pump | Mae eiriolwyr yn rhoi cymorth a chyngor yn gyflym pan ofynnir amdanynt. |
| Safon Chwech | Dim ond ar ran plant a phobl ifanc y bydd eiriolwyr yn gweithio. |
| Safon Saith | Mae'r gwasanaeth eirioli yn wasanaeth tra chyfrinachol ac mae'n sicrhau bod plant, pobl ifanc ac asiantaethau eraill yn ymwybodol o'i bolisïau cyfrinachedd. |
| Safon Wyth | Mae eiriolwyr yn gwrando ar farn a syniadau plant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir. |
| Safon Naw | Mae gan y gwasanaeth eirioli weithdrefn gwyno sy'n effeithiol ac yn hawdd ei defnyddio. |
| Safon Deg | Mae'r gwasanaeth eirioli yn cael ei reoli'n dda ac mae'n cynnig gwerth am arian. |

## *Atodiad 2 - JIG-SO EIRIOLAETH*

*Mae sawl ffordd wahanol o ddarparu eiriolaeth, a gall llawer o bobl fod yn eiriolwyr. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng Eiriolaeth Anffurfiol, Eiriolaeth Ffurfiol, Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol ac Eiriolaeth Cymheiriaid. Mae'r Jig-so canlynol yn dangos y gwahaniaethau hyn a'r ffordd y maent yn cydgysylltu.*

*Mae Eiriolwr….*

- *Yn eich helpu i sicrhau eich bod yn cael dweud eich dweud*
- *Yn gwrando arnoch*
- *Yn rhoi hyder i chi*
- *Yn rhoi gwybodaeth i chi*
- *Yn rhoi cymorth ymarferol i chi*
- *Yn negodi ar eich rhan*

**Eiriolaeth Ffurfiol**

Weithiau mae'n well cael help i gael gafael ar eich hawliau trwy broffesiynolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Pobl yw'r rhain fel arfer sy'n cael eu talu i helpu ac eirioli ar ran plant a phobl ifanc, hy gweithwyr ieuenctid, athrawon, nyrsys ysgolion, gweithwyr chwarae, gweithwyr gofal *etc*. Maent yn eich helpu i gael gwybodaeth, i wybod am wasanaethau, i wneud penderfyniadau, ac i ddod o hyd i fwy o help os oes angen, yn ogystal â sicrhau bod gennych lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch.

**Eiriolaeth Cymheiriaid**

Weithiau mae'n well mynd at blant a phobl ifanc eraill i gael cymorth i gychwyn, atal neu newid rhywbeth. Mae rhai plant a phobl ifanc yn fwy hyderus nag eraill a byddent yn hapus i gyfleu eich safbwynt chi i bobl eraill. Mewn rhai achosion, mae plant a phobl ifanc wedi cael hyfforddiant ar fod yn eiriolwr cymheiriaid ac maent yn rhan o gynllun neu brosiect.

**Eiriolaeth Anffurfiol**

Mae'r rhan fwyaf ohonoch yn cael cymorth i gael gafael ar eich hawliau gan rieni, gofalwyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion, rhieni ffrindiau ac yn y blaen. Maent yn eich helpu i fynegi eich barn, i ddweud sut rydych yn teimlo ac i wneud penderfyniadau. Eiriolwyr di-dâl ydynt.

**Eiriolaeth Annibynnol/Proffesiynol**

Pan fyddwch yn teimlo bod neb yn gwrando arnoch, neu'n teimlo nad ydych yn gallu cael gafael ar eich hawliau neu fod rhywun yn eich atal rhag cael gafael arnynt, efallai y bydd rhai ohonoch am ddefnyddio eiriolwr annibynnol/proffesiynol. Mae hyn fel arfer yn golygu pobl gyflogedig sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gymwys i'ch helpu i leisio'ch barn mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio arnoch. Efallai y byddant yn ymdrin â materion penodol am nad ydych yn hapus â'r sefyllfa bresennol ac am eich bod yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnoch. Byddent yn dod gyda chi i gyfarfodydd ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn deall popeth sy'n digwydd, a bod eich barn yn cael ei hystyried. Ni fyddant yn rhoi cyngor, ond byddant yn eich helpu i fynegi eich barn waeth beth fo'u barn nhw.

*Enghreifftiau o wasanaethau a meysydd polisi cydgysylltiedig*

- Llwybrau Dysgu 14-19 – Cymorth Personol
- Cyfranogiad a Hawliau Plant
- Cynhwysiant Addysgol
- Canllawiau Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gwynion
- Canllawiau'r GIG ar Gwynion
- Cwnsela mewn Ysgolion
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

**GALL EIRIOLAETH GYNNWYS**

| Esbonio | Rhoi Gwybodaeth | Llywio | Gwrando | Cefnogi | Ymddatrys | Cynrychioli | Grymuso | Cynghori | Negodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|